

**E**rstalwm, pan nad oedd siop lyfrau yn y Blaenau, awn yn aml i Lanrwst, i siop Arianwen Parri. Bellach ei merch Gwawr Dafydd sy'n croesawu prynwyr i'w siop lyfrau Bys a Bawd (enw rhyfedd yntê?). Yn ddiweddar bûm yno am y tro cyntaf ers hydroedd. Trewais ar lyfryn na chofiaf weld sôn amdano cyn hyn: Brasluniau Lewis Morris o Eglwysi, Tai a Phentrefi ym Môn. Casglwyd gan y Parch. Dafydd Wyn Wiliam. (tt.32; Cyh. gan yr awdur, arg. O.Jones, Llangefni, 1999.) Dylai fod o ddiwedd yson i bob hanesydd o Fonwysyn. Dywedir yn y Rhagair. *'Nid hwyrach y gellir cyn bo hir, grynhoi casgliad arall o'i luniau'*. Ei bris yw dwy bunt. Ymholer â'r Parch D.W.Wiliam, Llwyn Llinos, Bodedern, Ynys Môn.

Yn yr un dref mae'n werth picio i mewn i siop hen bethau a bwyty Pickwick's, ychydig lathenni o'r bont, ar y dde. Ceir llyfrau ail law digon diddorol yno, ac ar dywydd braf cewch flasu llyfr dros banded neu gael tamaid digon blasus i'w fwyta, yng ngardd y tŷ. (Gyda llaw: wrth sôn y tro o'r blaen, am gaffi'r gwaith copor ar y Gogarth, aeth fy nychymyg yn drech na fi: gellir gweld Llandudno yn ei gogoniant ar y ffordd i fyny, ond nid o'r caffii!)

### Gwilym Deudraeth a'i englyn Saesneg

Yr wyf newydd brynu **Bardd yr Awen Barod: Gwilym Deudraeth a theulu Cambrian View**, gan Trefor Edwards (Gwasg Llewista, 2003.; tt.81, pris £6.00). Ceir yma ffrwyth cryn ymchwil i'w hanes. Magwyd William Thomas Edwards ym Mhenrhyndeudraeth: aeth yn orsaf-feistr Tanybwlech a'r Dduallt ar y Lein Bach, a dod yn adnabyddus fel bardd gwlad digrif a difrif. Cyhoeddwyd casgliad o'i waith, **Yr Awen Barod**, yn 1943. Cofiaf fy nain (Mrs Kate Griffiths, Ty'r Oisaf, Tanygrisiau gynt) yn adrodd ag arddeliad yr englyn Saesneg, i ful Jâms Pantyffynnon, a'i hanfarwolodd ef. Ysyaeth nis dyfynnir yn gywir yn y llyfr hwn (t.52) a bu'n rhaid troi at flynhonnell nas defnyddiodd yr awdur, sef ysgrif **'Sgyrsion'** gan Ieuan Williams o Rydeyffiniau, Llanfrothen (yn Y Genhinen Gwanwyn 1963) i gael y testun cywir:

*So well he sings his solo - in the field  
With a full crescendo,  
Swelling and ending, you know,  
To a tender rallentando.*

Bu'r bardd am gyfnod yn gofalu am stesion Rhoslyn (y Dduallt), ac meddai Ieuan Williams, 'Mae'n debyg... fod unigedd a thawelwch y lle yn pwyso'n drwm ar feddwl y bardd, oherwydd cawn ei hanes yn llunio SOS. ar ffurf englyn:

*Cicwch fi i werthu cocos - neu hyrddiwch  
i'r Werddon i aros,  
Don't care where, rhywle o'r Rhos,  
Put me in Ynys Patmos.*

Troes y rhod: bellach mae'r Dduallt yn brysurach nag a fu erioed am a wn i, ond nid oes neb ar y Lein Bach yn barddoni'n ysbrydoledig gocosaid fel Gwilym Deudraeth gynt.

### Gwerthu llyfrgell y Gadeirlan yn y dirgel

A ddarllensoch chi rifyn Hydref 1-14, 2004 o *Private Eye*? Edrydd stori gywilyddus, os



Gwilym Deudraeth (1863 - 1940)

wy'n wir. Dywedir yno i'r Dr Barry Morgan, Archesgob Cymru, gau Coleg Mihangel yn Llandaf. Ymhellach, meddir, fe awdurdododd werthu llyfrgell y gadeirlan, a gynhwysai bum mil o lyfrau yn dyddio o ganol yr 16eg ganrif hyd yr ugeinfed ganrif. Yn 2003 derbyniodd Comisiwn y Cadeirlannau a'r Eglwysi gynnig i werthu'r llyfrau a ddyddiai o ar ôl 1800, ar yr amod y gweid catalog cyflawn ohonynt, y ceisid cyngor ynghylch y modd gorau o gael gwared ar lyfrau diangen ac y ceid cartrefi da i lyfrau pwysig. Yn ôl *Private Eye*, cafwyd gwared ar yr archifydd, ni wnaethpwyd catalog cyflawn, a gwerthwyd y llyfrau yn y dirgel - y cyfan ond 83 lyfr o bum mil - i gwmnïau megis Bonham's a Maggs Bros. Rhaid defnyddio'r arian a gafwyd at ddibenion addysgol, i greu darllenfa: ond ni fydd llawer o lyfrau i'w darllen yno. Ni fu sôn am hyn yn Nhail y Post, ac nid wyf yn arfer darllen Llais y Sais (sef y *Western Mail*): ni chofiaf weld dim yn *Y Cymro* nac yn yr un cychgrawn Cymreig; ni fu sôn, am a wn i, ar y radio na'r teledu. Ni wyddai neb yn y Llyfrgell Genedlaethol ddim ynghylch hyn ychwaith. Buaswn wedi disgwyl y cawsai honnogydd ar y llyfrau hyn o leiaf. Byddwn yn falch o glywed nad oes rithyn o wir yn hyn oll: mae'n atgoffa dyn o warth chwalo llyfrgell Coleg y Bala, pan werthid llyfrau prin o'r ddeunawfed ganrif fesul sachaid am ryw gymyn o bris.

Tybed a oes un o ddarllenwyr *Y Casglwr* a all ddweud gwirionedd yr hanes wrthym?

### Marged ferch Ifan yn cynhyrfu'r Saeson.

On'd ydyw ein cymdogion annwyl y Saeson yn rhai hawdd eu gogleis! Yn rhifyn Gŵyl Fihangel 2004 o Oxford Today, cychgrawn Prifysgol Rhydychen, bu rhyw Simon Winchester yn adolygu'r Oxford Dictionary of National Biography, clamp o waith, yn drigain cyfrol, a geir bellach ar ffurf electronig. Sonia Winchester sut y byddai, cyn cyhoeddi'r gwaith, yn clywed yn nhabarnau St Giles a'r Little Clarendon Street, yr un stori anhygoel: *'Did you know ... that there's one person in the DNB who's both a wrestler and, believe it or not, a harpist?'*... *'But that's not the half of it. The plain fact of the matter is: she's Welsh!'* Amrywiad, meddai

Winchester, ar yr hen jôc am weld Duw a chael mai +du yw Hi.. Heb allu coelio hyn, chwiliodd berfedd y gwaith â'i gyfrifiadur a chael 'a character with the formidable name of Marged ferch Ifan. This person ... was a woman, had been born in the Snowdonian village of Beddgelert in 1696, was by reputation as strong as an ox, was accustomed to double-nelsoning two grown men to the ground without demur, by habit and by preference made her own shoes, composed music for her two harps and two sets of musical bellows and (a dyma glensio'r hoelen) was in addition indubitably and eternally Welsh, to the very core of her being. (yn wahanol i Saeson, wrth gwrs, nad ydynt ond yn arwynebol Seisnig). Cyfeddyf ... I became immediately fascinated by this majestic Celtic crone, with her uncanny interests and prodigious strength. 'Celtic'? 'Crone'? 'Uncanny'? Be' sy'n bod ar Saeson, deudweh? Paham na allan' nhw feddwl ond mewn delweddau hurt a stereotypig?

### Draw dros y don!

Ddechrau Hydref dyma wireddu dyhead blynyddoedd a theithio ar hyd Camlas Aberhonddu a Mynwy. Huriwyd ewch hir gan gwmni cychod Llangynidr ac ymaith â ni i Aberhonddu. Amcanem wneud y deng milltir yno mewn rhyw ddwy awr a hanner: ond cul bas, a throellog yw'r gamlas, a phrin y gellir mynd ynghynt na rhyw ddwy filltir yr awr. Bu'n daith hanner diwrnod. Brysiau i ddweud ei bod hi'n gamlas hudolus brydferth a buom yn ffodus o'r tywydd. Aem trwy goedwigoedd uwchlaw dyffryn gwyrddlas Wysg: tirlun hollol wledig bellach. O'n cwmpas, er hynny, mae paradwys i'r cerddwr a'r archeolegydd diwydiannol: ceir adfeilion ac olion hen dramffyrdd a hen weithfeydd o bob math. Tref ddymunol yw Aberhonddu: ar ôl angori yn y basn terfynol gerllaw'r theatr, byr o dro fu hi i ddod o hyd i siopau llyfrau ail law Andrew Morton, yn 10-11 Iard y Llew (Aberhonddu LD37BA) a 7 Stryd y Llew (Aberhonddu LD3 7AY). Mae graen ar eu cynnwys enfawr, mae'r prisiau'n rhesymol a cheir stoc dda iawn o lyfrau Cymraeg a Chymreig. Bu'n werth mynd hefyd i'r *Brecon Antiques Centre*, 22a Stryd Fawr, sy'n cynnwys stondinau nifer o wahanol bobl, ac yn eu plith llawr cyfan o lyfrau ail law. Ni wyddem bryd hynny am *Books Maps & Prints*, 7 Y Strywed (Aberhonddu LD3 7LL), felly dyna rywbeth i edrych ymlaen ato'r tro nesaf.

Yn siop A. Morton cefais *Hill of Dreams* Myfanwy Haycock (Cwmbran Community Press, Hen Gwmbran, d.d. (ar ôl 1986)). Caiff y gyfrol ei theitl o'r gerdd 'The Hill of Dreams' a enillodd iddi'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Aberafan 1932, gyda'r bardd W.H.D. Davies yn feiriad, yn y dyddiau pan geid cystadlu yn Saesneg. Ysbrydolir ei cherddi a'i hysgythriadau celfydd gan fannau eu ei chynefin: Pontypŵl, Llan-gors, Llanofor, Rhaglan, Llanelli. Atgofus i mi yw ei llun o bont dros y gamlas, gyda'i cherdd

'THE CANAL NEAR PONTYPOOL': (1938)

*Long liquid miles  
That bend and twist and creep  
Darkly and imperturbably  
Along,  
Shallowly silver  
Bewilderingly deep  
Like a slow, green song.*

(Parhâl ar y dudalen nesaf)